



Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships



Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships

Hysbysiad Preifatrwydd KESS 2 / KESS 2 Dwyrain

Cyflwyniad:

Mae KESS 2 / KESS 2 Dwyrain wedi ymrwmo i ddiogelu data personol. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn nodi pam a sut rydym yn casglu, defnyddio a gofalu am y data personol rydym yn ei gasglu wrth reoli gweithrediadau KESS 2 / KESS 2 Dwyrain. Mae'n cynnwys data personol y mae'r unigolion eu hunain neu bobl eraill yn ei roi i KESS 2 / KESS 2 Dwyrain. Efallai byddwn yn defnyddio'r data personol a roddir i ni at unrhyw un o'r dibenion a ddisgrifir yn y datganiad preifatrwydd hwn, neu fel nodir yn wahanol wrth gasglu.

Casglu data personol :

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn byw sy'n cael ei adnabod neu mae modd ei adnabod. Mae KESS 2 / KESS 2 Dwyrain yn casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo rhywfaint o ddata personol wrth reoli'r prosiectau hyn.

Ein polisi yw dim ond casglu'r data personol sy'n briodol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r prosiect. Rydym ond yn gofyn am ddata personol pan fyddwn ei angen.

Dyma'r mathau o ddata personol sy'n cael eu prosesu gan KESS 2 / KESS 2 Dwyrain:

- Manylion personol – ee enw, dyddiad geni, a rhywedd
- Manylion cyswllt – ee cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, a chyfeiriad

Efallai bydd KESS 2 / KESS 2 Dwyrain yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol ar gyfer gweithgareddau penodol (ee archwilio). Byddwn ond yn gweld y data hwn os bydd yn cael ei roi i ni gan bartner KESS 2 / KESS 2 Dwyrain.

Un o amodau gwobr KESS 2 / KESS 2 Dwyrain yw bod eich prifysgol yn cadw eich data am o leiaf deg mlynedd ar ôl diwedd y prosiect (ee diwedd mis Mawrth 2023), ond, gallai hyn newid a bydd yn cael ei arwain gan ofynion cadw data WEFO.

Defnyddio data personol :

Mae KESS 2 / KESS 2 Dwyrain yn defnyddio data personol at y dibenion canlynol:

- Prosesu data personol i weinyddu a rheoli ein prosiectau
- Rheoli perthnasau â rhanddeiliaid presennol a rhanddeiliaid posibl
- Datblygu a gwella ein prosiectau
- Cynnal a chadw ein gwefan
- Cynnal digwyddiadau
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth unigolion ynghylch sut mae cynaliadwyedd yn berthnasol mewn cyd-destun addysg a busnes
- Mapio effaith prosiect KESS 2 yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

hynny yw, mynd ar drywydd buddiannau dilys i weinyddu, rheoli a datblygu ein prosiectau KESS 2 / KESS 2 Dwyrain.

- Ymgymryd â gweithgareddau i sicrhau ansawdd – efallai byddwn yn prosesu data personol er mwyn monitro, gwerthuso ac/neu ar gyfer adolygiadau

hynny yw, mynd ar drywydd buddiannau dilys i sicrhau ansawdd ein gwasanaethau.

- Cydymffurfio â deddfwriaethau, rheoliadau a safonau. Mae KESS 2 / KESS 2 Dwyrain yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol a phroffesiynol. Mae'n rhaid i ni gadw cofnodion penodol, a allai gynnwys data personol, i ddangos ein bod ni'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn wrth weinyddu a rheoli ein prosiectau.

hynny yw, mynd ar drywydd buddiannau dilys er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau rheoleiddiol neu broffesiynol.

Diogelu data personol :

Mae gan bartneriaid KESS 2 a KESS 2 Dwyrain bolisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant staff gorfodol sy'n ymdrin â diogelu data, cyfrinachedd a diogelwch. Yn ystod y broses cynefino, rhoddir gwybod i fyfyrwyr y bydd eu data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio at ddibenion gweinyddu cyllid eu hysgoloriaeth, a ddarperir gan WEFO. Defnyddir systemau diogel i rannu data personol â KESS 2 canolog (arweinydd prosiect), a dim ond aelodau priodol o dîm KESS 2 sy'n gallu cael gafael arnynt. Mae'r dogfennau sy'n gorfod cael eu storio yn cael eu cadw mewn cynhwysyddion sydd wedi'u cloi mewn adeiladau sy'n cael eu diogelu gan systemau diogelwch. Mae mesurau sefydliadol a thechnegol priodol ar waith i ddiogelu'n erbyn colli'n ddamweiniol, dileu, difrodi, newid neu ddatgelu data personol sy'n ymwneud â'r prosiectau. Mae'n rhaid i'r holl brifysgolion gydymffurfio â'r Gyfraith Diogelu Data. Mae'r mesurau a amlinellir yma yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i atal data personol rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu defnyddio, eu newid, eu datgelu neu eu gweld mewn ffordd heb ei awdurdodi.

Rhannu data personol :

Efallai bydd eraill yn ein helpu ni i ddarparu ein prosiectau o ran ymgysylltu'n benodol. Bydd darparwyr gwasanaeth trydydd parti yn prosesu eich data personol at ddibenion penodol yn unig ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ni.

Gallai'r data rydym yn ei gasglu gael ei rannu ag adrannau llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill sy'n chwarae rôl yn rhaglenni'r ESF. Mae hyn yn cynnwys WEFO; Llywodraeth Cymru; EFAT. Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth, byddwn yn rhoi prosesau diogelu digonol a phriodol ar waith i sicrhau diogelwch data.

Efallai byddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partion os bydd rhaid inni wneud hynny drwy gyfraith- er enghraifft, yn ôl gorchymyn llys, neu i atal twyll neu drosedd arall ; neu i ddiogelu hawliau, eiddo, neu ddiogelwch pobl eraill.

Cadw data personol :

Mae data personol yn cael ei gadw yn unol â pholisi cadw KESS 2 / KESS 2 Dwyrain, fel sy'n ofynnol o dan reolau cyllido WEFO. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd dogfennau ar gael i WEFO neu archwilwyr ar gais.

Eich hawliau :

Mae gan unigolion hawliau penodol dros eu data personol ac rydym ni'n gyfrifol am gyflawni'r hawliau hyn.

Mae gan unigolion yr hawl i wneud cais am y canlynol:

- Gwybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu
- Copi o'ch data personol
- Cywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn eich data personol
- Dileu eich data personol os na allwn gyfiawnhau ei gadw neu ei brosesu mwyach
- Cyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau

Hefyd, gallwch fynegi gwrthwynebiad ynghylch sut mae eich data personol yn cael ei brosesu. Os oes gennych gais neu wrthwynebiad, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data eich Prifysgol.

Mae gan eich prifysgol Weithdrefn Gwyno ar gyfer unigolion sydd ddim yn fodlon â'r ffordd mae eu data personol yn cael ei drin.

Gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data : www.ico.gov.uk

Cysylltu â ni :

Cysylltwch â'ch Rheolwr Prosiect KESS 2 / KESS 2 Dwyrain lleol neu Reolwr KESS 2 Cymru ym Mangor:

- Os hoffech wneud unrhyw un o'r ceisiadau a nodir uchod
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw beth yn y ddogfen hon
- Os ydych yn meddwl ein bod ni wedi camddefnyddio neu gam-drafod eich data personol

Ewch i 'cysylltiadau' yma : <http://kess2.ac.uk/>

Gallwch ddod o hyd i ganllaw GDPR WEFO yma :

[.https://gweddil.gov.wales/docs/wefo/publications/180622-wefo-gdpr-v2-en.pdf](https://gweddil.gov.wales/docs/wefo/publications/180622-wefo-gdpr-v2-en.pdf)